

Ysgol Ramadeg Dolgellau, lle'r oedd Daniel Lewis Lloyd yn athro, ac yn 1873 fe ddilynodd ei athro i ysgol Friars, Bangor. Oddi yno aeth i Goleg yr Iesu, Rhydychen gan raddio yn yn y clasuron yn 1877. Erbyn 1878 roedd D. L. Lloyd yn brifathro Coleg Crist Aberhonddu, a denodd ef J. C. Evans yno yn athro, lle bu John Morris Jones yn un o'i ddisgyblion. Yn 1881 penodwyd J. C. Evans yn brifathro Ysgol Ramadeg y Bala ac yno y bu hyd ei farwolaeth. Yn ei hunangofiant dywed R. T. Jenkins ei fod wedi cael sylfaen ragorol mewn Lladin a Groeg ganddo yn ystod pum mlynedd (1893-98) yn ysgol y Bala.

Wedi i Mary ymadael am y Bala gwyddom fod teulu Llwynithel wedi cynnal y cysylltiad â Bryntanat oherwydd fe fu Elizabeth Williams, gwraig y Parch Richard Williams (mam Mary Evans) farw yno yn 1887. Erbyn adeg Cyfrifiad 1891 cawn fod Hugh Williams Kyffin yn byw gyda Mary a J. C. Evans yn y 'Grammar School' yn y Bala, yn 'visitor, living on his own means', ac fod Bryntanat wedi mynd i ddwylo dieithr Grace Slingsby (69) a'i merch Ada F. Slingsby (28) o Fanceinion. Gallwn felly fod yn weddol siŵr mai rhwng 1887 a 1891 y symudwyd y llyfrau o Fryntanat i'r Bala. Nid oes un dim i ddangos fod Hugh Kyffin Williams yn ddarllenwr nac yn brynwr llyfrau; hwyrach yn wir mai i J. C. Evans y mae'r diolch fod y llyfrau wedi eu cludo i ddiogelwch yr Ysgol Ramadeg.

Bu farw Mary Evans yn 1899, yn ddi-blant. Er mawr syndod i deulu Llwynithel ail-briododd J. C. Evans ymhen blwyddyn â 'barmaid y Lion', chwedl fy nhad. Dengys tystysgrif y briodas, a gynhaliwyd yn eglwys y plwyf, Little Ilford, swydd Essex mai gwraig weddw 29 oed, Margaret Oswald Shove oedd yr ail Mrs Evans. Yr oedd Hugh Kyffin Williams a'r llyfrau yn rhan o'r pecyn priodas y bu rhaid iddi ddygmod ag ef. Byddai fy nhaid, John Richard Williams, y Siop, Glanrafon, yn ymweld â'r Bala unwaith bod blwyddyn i sgwrsio â Hugh Kyffin, a adwaenid erbyn hyn fel 'yr hermit', ac i gadw llygad ar y llyfrau. Taerai ef mai teulu Llwynithel, fel perthnasau agosaf hen deulu Darowen, a theulu llengar a chrefyddol, ddylai fod wedi etifeddu'r llyfrgell.

Ym mis Ionawr 1915 bu farw J. C. Evans, yn 61 oed, gan adael ei wraig yn weddw am yr ail waith a Margaret eu merch yn ifanc iawn. Gan mai yn Nhŷ'r Ysgol yr oeddent yn byw, rhaid oedd chwilio am dŷ newydd yn sydyn, a chafwyd un yn Ffordd Ffrydan. Yno yr aethant, a Hugu Kyffin gyda hwy. Ond mae'n rhaid nad oedd le, na chroeso i'r llyfrau. Dyna mae'n siŵr a arweiniodd i'r penderfyniad i werthu'r llyfrau, a galw am wasanaeth John Davies o'r Llyfrgell Genedlaethol i baratoi'r Catalog.

Cyn sôn am y llyfrau, dylwn ddweud fod Hugh Kyffin wedi cael pob gofal gan Mrs Evans yn Ffordd Ffrydan. Am gyfnod bu brawd fy nhad, Thomas (Tomi) yn lodgio yno tra yn ddisgybl yn yr ysgol Sir, a'i gyfneither Mali, ond byr fu arhosiad Mali gan fod Mrs Evans yn tybio fod Kyffin yn talu mwy o sylw iddi hi nag i Margaret ei merch. Beth tybed oedd ganddo yn weddill o'i etifeddiaeth i'w adael iddynt? Pan fu Kyffin farw ym mis Mehefin 1920, yn 79 oed, fe'i claddwyd yn yr un bedd â Mary Evans a J. C. Evans ym mynwent Llanycil, y Bala. Yno hefyd y claddwyd Margaret Oswald Evans yn 1940. Mae'r bedd mewn lle amlwg rhwng clwyd y fynwent a drws yr eglwys.

## Cynnwys y Catalog

Rhannwyd y catalog yn 560 lot, 50 ohonynt yn lotiau amrywiol. Tua 800 o lyfrau i gyd. Rhestrir y cynnwys yn ôl awdur ac yn nhrefn y wyddor, gydag atodiad o 80 lot wedi eu trefnu yn yr un modd. Nodir pris ar gyfer bob lot yn y catalog, sy'n dangos nad catalog arwerthiant ydyw. Y llyfrau cynharaf yn y catalog yw *Kynniver Llith a Ban* (1551) a *Gramadeg John Dafydd Rhys* (1592) (dau gopi, un yn amherffraith), *Homiliau* a gyfieithwyd gan Edward James (Llandâf) (1606) (dau gopi mewn derw a lledr), a dau *Lyfr Gweddî Gyffredin* gyda *Psalmau Edmund Prys* (1621 a 1638). Fel y gellid disgwyl llyfrau defosiynol yw crynswth y casgliad, gyda hanes a barddoniaeth yn adlewyrchu diddordebau eraill y brodyr. Yr oedd yma lawer o feiblau a thestamentau, rhai mewn Llydaweg a Gwyddeleg hyd yn oed. Mae dyddiadau cyhoeddi'r llyfrau yn gyffredinol fel a ganlyn: cyn 1600: 3; 1600-1700: 21; 1700-1750: 33; 1750-1800: 99; 1800-1830: 344; 1830-1860: 185; 1860-1910: 21.

Nid oes yma unrhyw awgrym fod Hugh Williams Kyffin yn ddarllenwr nac yn brynwr llyfrau. Nid oes unrhyw awgrym chwaith mai llyfrgell bersonol J. C. Evans ydoedd (fel yr awgryma John Fisher) gan nad oes yma fawr o lyfrau o'i gyfnod ef, na dim i amlygu ei ddiddordeb yn y clasuron.

## Y Prynwr

Yn y copi sydd gen i nodir pa lotiau a brynwyd ac enwau (neu briflythrennau'r) prynwr. Ymysg y rhain yr oedd casglwyr a llyfrgellwyr ledled Cymru, ond y blaenaf ohonynt oedd John Humphreys Davies, cofrestrwydd Coleg Aberystwyth (Prifathro yn ddiweddarach). Ef oedd y prif awdurdod yng Nghymru ar gasglu llyfrau a llawysgrifau yn ei gyfnod. Prynodd ugain eitem unigol a phump ar hugain o lotiau amrywiol yn cynnwys cant wyth deg o eitemau eraill. Ychydig dros ddeg punt a gostiodd hynny iddo. Yn ei gofiant i J. H. Davies mae T. I. Ellis yn dyfynnu llythyr ganddo yn datgan ei fod hefyd, ar yr adeg yma, wedi prynu casgliad o lawysgrifau y teulu Richards gan Mrs Evans - llythrau a dyddiaduron, llawysgrifau a gasglwyd ac eraill a gopiwyd ganddynt, yn cynnwys llawysgrifau Llansilin. Mae'r cyfan yn ddiogel erbyn hyn ymysg Llawysgrifau Cwrtmawr (cartref JHD) yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Gan mai John Davies o'r Llyfrgell Genedlaethol a luniodd y catalog mae'n debyg ei fod ef wedi cael y dewis cyntaf o'r casgliad ar gyfer y llyfrgell ac fod llyfrau prinnaf wedi mynd yno. Ni wyddom faint, nac ychwaith faint a ychwanegodd hynny at y gwerthiant. Mae ei enw yn y catalog fel prynwr ambell eitem ychwanegol, a aeth efallai trwy'r rhwyd y tro cynta.

Yr oedd gan y Llyfrgell Genedlaethol gopi perffaith eisoes o *Kynniver Llith a Ban*, prif atyniad y catalog, a werthwyd cyn i'r catalog gael ei ddosbarthu hwyrach, am £105. Mae hwn yn bris mawr, o gofio nad oedd prisiant gweddill y catalog fawr mwy na hynny. Mae'r llythyr a nodwyd uchod gan J. H. Davies yn dweud hefyd mai ef a werthodd y gyfrol ar ran Mrs Evans, am 'bris lled dda'. Y prynwr oedd Evan Davies Jones (Syr yn ddiweddarach), peiriannydd sifil cyfoethog o Abergwaun a chasglwr llyfrau ar raddfa helaeth. Bu'n aelod o lys y Llyfrgell o'r cychwyn. Prynodd yntau yn helaeth o'r catalog, 28 lot gan gynnwys wyth o feiblau.

Dywedai fy nhad fod Thomas

# CATALOGUE OF Rare Welsh Books

AND  
Books relating to Wales,

OFFERED FOR SALE.

This List was compiled by Mr. JOHN DAVIES, of the National Library of Wales, Aberystwyth, at the Old Grammar School, BALA, July, 1915.

All orders of £2 and upwards Carriage Paid. Remittance in all cases must be sent before Books can be forwarded. Numbers will be reserved until the amount is sent.

PRINTED AT THE "SEREN" OFFICE, BALA, 1915.

## Wyneb-ddalen y Catalog.

Shankland, llyfrgellydd coleg Bangor, yn flin iawn na chafodd gyfle i brynu *Kynniver Llith a Ban*. Erbyn hyn mae hen gopi coleg y Bala yn y llyfrgell honno. Prynodd Shankland nifer o eitemau, ond er i mi a Rheon Pritchard dreulio diwrnod yn chwilio am yr eitemau hynny yn llyfrgell y coleg ni chawsom unrhyw dystiolaeth mai copiau o gatalog y Bala oeddynt.

Prynodd y Parch Albert Owen Evans, Archddiacon Bangor wyth *Llyfr Gweddî Gyffredin* ymysg eitemau eraill. Ef oedd yr arbenigwr ar y *Llyfr Gweddî Cymraeg*, fel y dangosodd ei dair cyfrol ysgolheigaidd yn 1922. Roedd T. Witton Davies, Athro Hebraeg Coleg Bangor hefyd yn brynwr.



Carreg fedd Mary Evans, J. C. Evans, Margaret Oswald Evans a Huw Williams Kyffin ym mynwent Llanycil, Y Bala. (Llun: I. W. Williams).

Aeth Timothy Lewis, yr ysgolhaig anunionged â'r *Antiquae Linguae Britannicae* (1632) am 30/-, y *Mycræian Archaeology* (1801) am £3 ac *Archaeologica Britannica Edward Llewellyn* am 12/6. Ym mhen arall y spectwm academaidd aeth y chwarelwr llengar Edward Foulkes â *Gwaith Gutyn Padarn* am 5/-. O. Eilian Owen aeth â *Gramadeg J. D. Rhys* am 25/- er fod y catalog yn nodi 'Copies have been sold for £3.10.0'.

Ymysg y prynwr yr oedd Henry Owen (hanesydd sir Benfro), W. H. Harris, Fred Jones, Ifor Williams, Lewis Jones, T. T. Phillips, E. J. Evans, R. E. Roberts, D. Worthington, J. Venmore Williams a

(Parhad ar dudalen 23)